# Gweithgareddau Synhwyraidd - Clywedol (clyw)


**Beth yw gweithgareddau synhwyraidd?**
Trwy ddarparu ystod o weithgareddau ar draws pob un o'r 8 system synhwyraidd byddwch yn cefnogi datblygiad y plentyn. Ceisiwch eu gwneud fel rhan o'ch arferion dydd i dydd trwy eu hymgorffori mewn chwarae.

Mae'r gweithgareddau canlynol yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio'r system glywedol (clyw).

| | | | |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| Darllen llyfr | Mynd ar daith wrando | Posau sain | Offerynnau cerdd cae chwarae |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| Poteli sain | Seiloffon dŵr | Cofnodi synau cartref | Gwnewch eich clychau gwynt eich hun |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| Maracas | Drymiau gleiniau | Drymiau | Ysgytwyr wyau |

|  |  |  |  |
|---|---|---|---|
| Chwarae offerynnau cerdd | Gwrando ar gerddoriaeth | Clapio Dwylo | Waliau Cerddoriaeth |

**<u>Canllawiau ar gyfer defnyddio gweithgareddau Synhwyraidd</u>**

- Dylai gweithgareddau synhwyraidd gael eu goruchwylio gan oedolyn

- Gwyliwch sut mae'r plentyn yn ymateb i'r mewnbwn synhwyraidd. Os ydyn nhw'n ymddangos yn ofidus, yn bryderus neu'n anghyfforddus, fe ddylech roi'r gorau i'r weithgaredd. Cyn i chi roi cynnig arall ar y weithgaredd, gofynnwch i chi'ch hun a allwch chi ei newid mewn ffordd a fyddai'n gwneud i'r plentyn ei mwynhau'n fwy Os ydynt yn parhau i ymddangos yn ofidus, yn bryderus neu'n anghyfforddus, peidiwch â cheisio'r un weithgaredd dro ar o tro.

- Os yw'n ddiogel ac yn bosibl gwneud hynny, caniatewch i'r plentyn fod â rheolaeth dros faint a pha mor hir y mae'n chwarae gyda phob gweithgaredd synhwyraidd. Mae cynnig amrywiaeth o wahanol weithgareddau synhwyraidd trwy gydol pob dydd o gymorth mawr i gefnogi datblygiad.

- Siaradwch â'r plentyn am y weithgaredd yr ydych chi'n ei chyflwyno. Os yw'n briodol, defnyddiwch luniau o'r weithgaredd er mwyn cefnogi eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd.

- Dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau sy'n cyd-fynd ag unrhyw weithgareddau neu offer rydych chi'n eu prynu.